

# Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2024-2025

**This document is also available in English**

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg**

## Rhagair

Dyma Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2024-25 ac mae'n canolbwyntio ar ein prif gyflawniadau yn ystod y flwyddyn.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl Cymru. Rydym yn sefydliad Cymru gyfan ac mae gennym 2634 o aelodau staff sy'n gweithio o wahanol leoliadau ledled y wlad.

Rydym yn falch o fod yn sefydliad dwyieithog, ac rydym yn falch iawn o'r cynnydd rydym wedi'i wneud i ymgorffori'r Gymraeg ymhellach yn ein gwaith ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae llawer i'w ddathlu yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys datblygiadau a gwelliannau yn ein proses gyfieithu, sydd wedi dwyn nodweddion effeithlonrwydd a manteision i'n staff a'n cyflenwyr cyfieithu.  Rydym yn falch o'n fideo 'Croeso i Iechyd Cyhoeddus Cymru', sy'n cyflwyno'r Gymraeg o fewn y sefydliad i aelodau newydd o staff drwy egluro pwysigrwydd cynnig gwasanaeth dwyieithog, ein rhwymedigaethau cyfreithiol a'r cymorth a'r canllawiau sydd ar gael.

Mae cyflwyno ein Hwb Llywodraethu wedi bod yn gam cadarnhaol i'n cynorthwyo i fodloni Safonau'r Gymraeg yn gysylltiedig â Llunio Polisi ac edrychwn ymlaen at weld yr Hwb yn datblygu ymhellach dros y flwyddyn nesaf.  Mae cyfleoedd hyfforddiant Codi Hyder a Chroeso wedi cael eu cyflwyno er mwyn i staff wella eu sgiliau Cymraeg ac edrychwn ymlaen yn fawr at weithio gyda'n darparwr, Coleg Cambria, yn ystod 2025 – 2026 i sicrhau bod ein staff yn parhau â'u taith dysgu Cymraeg a bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyrraedd targedau Mwy na Geiriau.

Mae ein rhwydwaith staff, Ymlaen, yn parhau i fynd o nerth i nerth gyda llawer mwy o aelodau staff wedi ymuno dros y flwyddyn ddiwethaf a digwyddiadau rheolaidd yn cael eu cynnal. Roedd ein hail Wythnos y Gymraeg ym mis Mawrth yn llwyddiant ysgubol ac yn gyfle gwych i ddod â chydweithwyr ynghyd yn ein swyddfa i ddathlu'r Gymraeg – rydym eisoes yn edrych ymlaen at Wythnos y Gymraeg 2026.

Rydym ni'n gwybod wrth gwrs fod gennym ni feysydd y mae angen i ni eu gwella, a byddwn ni'n parhau â'r gwaith ar ein gwefan newydd, gyda'r nod o'i lansio ddechrau 2026. Mae gennym gynlluniau i wella ein proses bresennol o asesu sgiliau Cymraeg swyddi newydd neu swyddi sy'n disodli rolau eraill, yn unol â Safonau 106 a 106A, fel eu bod yn symlach ond hefyd yn fwy effeithiol wrth ddenu mwy o siaradwyr Cymraeg i'n gweithlu.  Bydd cefnogi ein Cyfarwyddiaethau i gyrraedd eu targedau cynllunio'r gweithlu iaith Gymraeg hefyd yn darged allweddol i ni yn y maes hwn yn ystod 2025 – 2026.

Yn olaf, rydym yn edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda'n darparwr hyfforddiant allanol, HICO, dros y flwyddyn nesaf i ddarparu hyfforddiant iaith Gymraeg i'n staff a'n rheolwyr a fydd yn ein galluogi i fodloni safonau 97, 98 a 99(b) yn llawn. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei gyflwyno o fis Awst ymlaen ac edrychwn ymlaen at roi adborth yn ein hadroddiad blynyddol nesaf.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gwbl ymroddedig i'r Gymraeg ac rydym yn parhau i elwa o'r arweinyddiaeth a ddangosir gan ein Bwrdd a'n Tîm Gweithredol i sicrhau bod y Gymraeg yn rhan weladwy a chlywadwy o'u cyfathrebu; o frwdfrydedd ein staff ar bob lefel i ddysgu, gwella a defnyddio'r Gymraeg; ac o ewyllys da ac ymrwymiad arbennig ein staff sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen, sy'n cydnabod pwysigrwydd yr iaith wrth wella profiadau iechyd pobl Cymru.

Rydym yn parhau i fod yn falch o'n cyflawniadau ac rydym o'r farn bod yr Adroddiad Blynyddol hwn yn dangos ein hymroddiad parhaus i ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg ledled Cymru.

Mae adroddiad eleni yn canolbwyntio'n bennaf ar y safonau hynny a welodd welliant neu ddatblygiad yn ein cydymffurfeddd â nhw ers ein hadroddiad 2023 – 2024: Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2023-2024.

**Neil Lewis**
**Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol ac Arweinydd Gweithredol y Gymraeg**

## Cyflwyniad

Daeth y gofyniad i Iechyd Cyhoeddus Cymru gydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 i rym ar 30 Mai 2019; mae'r safonau y mae'n rhaid i Iechyd Cyhoeddus Cymru gydymffurfio â nhw wedi'u nodi mewn Hysbysiad Cydymffurfio a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Dyma ein chweched Adroddiad Blynyddol, ac mae'n ymdrin â'n datblygiadau a'n gwelliannau yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.

## Gweithredu Safonau'r Gymraeg yn Iechyd Cyhoeddus Cymru

### Trefniadau ar gyfer hwyluso'r gwaith o weithredu'r safonau

Y Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol sydd â'r prif gyfrifoldeb am y Gymraeg yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae gennym Hyrwyddwr y Gymraeg ar ein Bwrdd, ac mae ein Rheolwr y Gymraeg a Thîm y Gymraeg yn gyfrifol am gynllunio strategol a gweithredol y Gymraeg ar draws y sefydliad.

Mae Tîm y Gymraeg yn cynnwys Rheolwr y Gymraeg, Cynghorydd y Gymraeg a Chydlynydd Cyfieithu. Mae'r tîm yn cefnogi staff ar draws y sefydliad i ymgorffori'r Gymraeg yn eu gwaith, hyrwyddo diwylliant dwyieithog o fewn y sefydliad a chynnig cyngor a chymorth ar gydymffurfio â deddfwriaeth y Gymraeg. Mae'r tîm yn gwneud hyn drwy:

- Fonitro cydymffurfedd ar draws y sefydliad, nodi bylchau lle maent yn bodoli ac arwain ar ymholiadau a chwynion gan aelodau'r cyhoedd neu Gomisiynydd y Gymraeg.
- Gweithio'n agos gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru.
- Cyhoeddi dogfennau canllaw a thempledi i gefnogi staff.
- Cynorthwyo ein staff i sicrhau dealltwriaeth o gydymffurfedd â'r Gymraeg a bod yn ffrind beirniadol pan fo angen.
- Codi ymwybyddiaeth o ddiwylliant Cymru drwy ddathlu digwyddiadau cenedlaethol, cydweithio â'n rhwydwaith staff, Ymlaen, a chyhoeddi cylchlythyr Cymraeg.
- Mynd i gyfarfodydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am amrywiol Safonau a deddfwriaeth y Gymraeg.
- Arwain sesiynau hyfforddi a chyflwyniadau i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn y gweithle.
- Sicrhau bod ein staff sy'n dymuno dysgu neu ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn gallu cael at yr holl gyfleoedd sydd ar gael iddynt ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.
- Arwain ein prosesau cyfieithu i sicrhau eu bod yn effeithlon ac yn addas at eu diben yn y dyfodol.

Mae Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol ill dau yn derbyn adroddiadau a diweddariadau rheolaidd ar faterion y Gymraeg. Gweler y dolenni i'r Diweddariad ar y Gymraeg a ddarparwyd ym mis Chwefror 2025.

## Gweithio mewn Partneriaeth

Mae gan Dîm y Gymraeg berthynas waith agos â Swyddogion a Rheolwyr y Gymraeg byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd eraill ledled Cymru. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod heriau a rhannu arferion gorau, ac i gyd-drefnu digwyddiadau ar y cyd i staff GIG Cymru, lle bo modd.

Hefyd, mae gennym berthynas waith agos ag Uned y Gymraeg o fewn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Mae ein Tîm y Gymraeg yn mynychu cyfarfodydd chwarterol gyda'r Uned i drafod y nodau a'r amcanion yn y Fframwaith Strategol Mwy na Geiriau yn Unig.

## Hunan-reoleiddio gyda Safonau'r Gymraeg

Mae cyfarwyddwyr unigol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am drefniadau o fewn eu cyfarwyddiaethau eu hunain, sy'n rhoi sicrwydd iddynt fod gofynion y Gymraeg yn cael eu bodloni'n llawn.

Mae ein Grŵp corfforaethol y Gymraeg, sy'n cyfarfod bob chwarter ac sy'n cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu Sefydliadol, yn cynnwys hyrwyddwyr y Gymraeg o bob cwr o'r sefydliad, sy'n dod ynghyd i drafod cydymffurfedd cyffredinol, llwyddiannau a heriau. Cedwir cofnod gweithredu ar gyfer y cyfarfodydd hyn i sicrhau cynnydd.

Bob mis Mawrth, mae cynrychiolwyr Grŵp y Gymraeg yn diweddaru templed adrodd ar Safonau’r Gymraeg ar gyfer eu Cyfarwyddiaeth neu Adran, yna mae Tîm y Gymraeg yn casglu’r wybodaeth hon a’i chynnwys mewn adroddiadau fel yr adroddiad hwn. Mae'r templedi adrodd hyn yn rhoi golwg gwerthfawr i Dîm y Gymraeg ar y gwaith gwych sy'n cael ei wneud ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru i ymgorffori'r Gymraeg ymhellach yn ein diwylliant a'n ffyrdd o weithio, ac maent hefyd yn cynorthwyo’r tîm i nodi meysydd gwan fel y gellir darparu cefnogaeth lle bo angen.

## Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio

Mae gan ein His-adran Sgrinio grŵp y Gymraeg hefyd, dan gadeiryddiaeth Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus, ac mae rheolwyr o bob un o'r rhaglenni sgrinio yn mynychu’r grŵp.  Mae cynlluniau gweithredu, cofnodion a chofnodion gweithredu, ac mae cynnydd yn cael ei fonitro'n agos a'i adrodd i uwch dîm rheoli'r is-adran. Mae Tîm y Gymraeg yn mynd i’r cyfarfodydd i sicrhau bod arferion gorau’n cael eu rhannu a bod pawb yn cael gwybod am y cynnydd diweddaraf.

## Gweithrediaeth y GIG

Mae Gweithrediaeth y GIG yn sefydliad sy'n cael ei letya gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae gwybodaeth a chynnydd gan Weithrediaeth y GIG ar gyfer y cyfnod adrodd hwn i’w gweld yn Atodiad A (tudalen 36).

## Trefniadau cyfieithu

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Tîm y Gymraeg wedi canolbwyntio llawer o'u hymdrech ar wella ein prosesau cyfieithu.  Roedd angen y gwelliannau hyn yn dilyn adborth gan staff ar

brosesau hanesyddol ac ansicrwydd am ansawdd ein cyfieithiadau Cymraeg oherwydd nifer y cyflenwyr cyfieithu a nifer y cwynion a gafwyd.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd y datblygiadau canlynol yn ein prosesau cyfieithu:

- Fe wnaethon ni gynyddu ein Cytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Uned Gyfieithu Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC).
- Fe wnaethon ni dendro ar gyfer ein cyflenwyr cyfieithu allanol a sefydlu contractau gyda naw o gyflenwyr cyfieithu allanol.
- Fe wnaethon ni recriwtio Cydlynydd Cyfieithu newydd i'r sefydliad i reoli a chydlynu ein prosesau cyfieithu a chynnig cefnogaeth ac arweiniad gwerthfawr ac arbenigol i staff.
- Rydym wedi adeiladu a lansio Porth Ceisiadau Cyfieithiadau Cymraeg newydd ar Microsoft Power Apps i weinyddu ein ceisiadau am gyfieithiadau ysgrifenedig. Bydd hyn yn sicrhau bod gennym brosesau a data cadarn ynghylch cyfieithu. Bydd cyfieithu ar y pryd a chyfieithu amlgyfrwng yn cael eu hychwanegu at y porth yn 2025 – 2026.

O ganlyniad i'r gwelliannau hyn, mae gennym broses llawer symlach ar gyfer gofyn am gyfieithiadau, gan roi hyder i'n staff yn ein prosesau cyfieithu ac yn ansawdd y cyfieithiadau a dderbyniwn. Rydym yn falch iawn o'n cyflawniadau yn y maes hwn dros y flwyddyn ddiwethaf a byddwn yn parhau i fonitro ein prosesau a gwneud gwelliannau lle bo angen.

## Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 1-64

## Gohebiaeth a ffôn (Safonau 1–20).

### Cylchlythyrau

Pan fyddwn yn cynhyrchu ac yn rhannu cylchlythyrau sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd, maent ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd. Mae dwy enghraifft o gylchlythyrau o'r fath a rannwyd dros y flwyddyn ddiwethaf i'w gweld isod – y cylchlythyr Pwysau Iach Byw'n Iach newydd a chylchlythyr Cymru Iach ar Waith.

**Cylchlythyr Pwysau Iach Byw'n Iach**



Croeso !

Ewch isod i ddarllen yn Saesneg
Scroll down to read in English

**Diolch am danysgrifio i'n cylchlythyr.**

Pan ddaw i gyrraedd a chynnal pwysau iach, rydyn ni gyd ar siwrnai wahanol.

Dyna pam rydym wedi datblygu cynnig unigryw wedi'i deilwra i'ch anghenion i'ch helpu cyflawni newid hirdymor, trwy newidiadau bach sy'n cyd-fynd a'ch bywyd bob dydd.

**Sut mae'n gweithio**


Trwy gwblhau ein hasesiad 5-munud byddwch yn dod o hyd i siwrnai wedi'i deilwra i chi gyda chyngor ac adnoddau gan ein harbenigwyr er mwyn rhoi'r cyfle gorau i chi lwyddo.

Barod amdani? Dechreuwch eich siwrnai heddiw! Neu os ydych wedi cychwyn arni yn barod, allwch barhau ar unrhyw adeg trwy ddewis 'Parhau â fy Siwrnai' isod.

Dechrau fy Siwrnai | Parhau â fy Siwrnai

Eich dewisiadau cyfathrebu

**Healthy Weight Healthy You newsletter**



Welcome !

**Thank you for subscribing to our newsletter.**

When it comes to achieving and maintaining a healthy weight, we're all on different journeys.

That's why we've developed a unique offer tailored to your needs to help you make a lasting change, with small changes that fit into your everyday life.

**How does it work?**

By completing our 5-minute health assessment, you'll find a journey tailored to you, with realistic advice and resources from our experts to give you the best chance of success.

Ready to get started? Start your journey today! Or if you've already started, you can pick up right where you left off at any time by selecting 'Resume my Journey' below.

Start my Journey | Resume my Journey

Your communication preferences

## Cylchlythyr Cymru Iach ar Waith



CIW HWW | Cymru Iach ar Waith Healthy Working Wales

Medi 2023

**Croeso i E-fwletin Cymru Iach ar Waith (CIW)**

Darparu diweddariadau gan dîm CIW, newyddion iechyd a llesiant yn y gweithle a dolenni i ymgyrchoedd a digwyddiadau sydd i ddod. Rhannwch yr e-fwletin hwn gyda chydweithwyr a'ch rhwydweithiau.

Cliciwch yma i gofrestru ar gyfer e-fwletinau misol CIW ac i weld y rhifynnau blaenorol.

**Canllawiau Llywodraeth Cymru i Gyflogwyr wedi'u Diweddaru ynghylch Gwaith Teg**

Mae gwaith teg yn golygu bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo'n deg, yn cael eu clywed a'u cynrychioli, yn ddiogel ac yn gallu symud ymlaen mewn amgylchedd gwaith iach, cynhwysol lle mae hawliau'n cael eu parchu.

Nod canllawiau gwaith teg diweddaraf Llywodraeth Cymru yw gwella dealltwriaeth cyflogwyr o'r canlynol:

- Beth mae gwaith teg yn ei olygu yn ymarferol?
- Pam fod hyrwyddo gwaith teg yn fuddiol i sefydliadau, gweithwyr a llesiant ehangach?
- Sut y gall sefydliadau barhau ar eu taith gwaith teg?

Ceir gwybodaeth ychwanegol am waith teg ar wefan CIW.

**We Are Undefeatable: Sut Gall Cyflogwyr Helpu i Gefnogi Gweithwyr â Chyflyrau Iechyd Hirdymor**

Wedi'i ddatblygu gan 15 o elusennau iechyd a gofal cymdeithasol blaenllaw, mae We Are Undefeatable (Saesneg yn unig) yn ymgyrch barhaus sy'n cefnogi pobl ag ystod o gyflyrau iechyd hirdymor gan eu hannog i ddod o hyd i ffyrdd o fod yn egnïol.

Trwy gymryd rhan yn yr ymgyrch hon, mae cyflogwyr yn cael y cyfle i gefnogi gweithwyr sy'n delio â chyflyrau iechyd, a helpu i feithrin diwylliant o gynhwysiant ac ysbrydoliaeth o fewn eu sefydliad. Mae adnoddau *We Are Undefeatable*, gan gynnwys

## Healthy Working Wales newsletter



CIW HWW | Cymru Iach ar Waith Healthy Working Wales

September 2023

**Welcome to the Healthy Working Wales (HWW) E-bulletin**

Providing updates from the HWW team, workplace health and wellbeing news and links to upcoming campaigns and events. Please share this e-bulletin with colleagues and your networks.

Click here to sign up for monthly HWW e-bulletins and to view previous editions.

**Welsh Government's Updated Fair Work Guidance for Employers**

Fair work means workers are fairly rewarded, heard and represented, secure and able to progress in a healthy, inclusive working environment where rights are respected.

Welsh Government's updated fair work guidance aims to improve employers' understanding of:

- What fair work means in practice.
- Why promoting fair work is beneficial for organisations, workers and wider wellbeing.
- How organisations can continue on their fair work journey.

Additional information on fair work can be found on the HWW website.

**We Are Undefeatable: How Employers Can Help Support Employees with Long-term Health Conditions**

Developed by 15 leading health and social care charities, We Are Undefeatable is an ongoing campaign supporting people with a range of long-term health conditions that encourages them to find ways to be active.

By participating in this campaign, employers have the opportunity to support employees dealing with health conditions, and to help foster a culture of inclusivity and inspiration within their organisation. We Are Undefeatable resources, including posters, social media assets and member stories, are available on their website.

## Arolygon adborth cwsmeriaid

Mae ein tîm ymgysylltu wedi datblygu ein defnydd o blatfform Civica i gasglu adborth gan gwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaethau dros y flwyddyn ddiwethaf.

Yn ystod 2024 – 2025, rydym wedi gweithio gyda'n Gwasanaethau Sgrinio Cenedlaethol i ddeall profiad pobl (cleifion) o gael cwestiynau am ba iaith y byddai'n well ganddynt gyfathrebu ynddi ac a oeddent yn gallu gwneud hynny. Mae'r cwestiynau rydym ni'n eu defnyddio i gasglu data ar ddewis iaith yn dod o Fframwaith Profiad Pobl Llywodraeth Cymru (cwestiynau 4a a 4b).


Yn ogystal â'r arolygon lleol, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd wedi treialu dull SMS o ofyn am adborth ar draws wyth clinig sy'n cael eu gweithredu gan Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru. Mae'r arolwg SMS hefyd yn cynnwys yr un cwestiwn am iaith/y Gymraeg.

Mae'r tabl isod, a gymerwyd o arolwg SMS 1 Ionawr 2025 – 31 Mawrth 2025, yn dangos bod 11 o bobl a atebodd yr arolwg (582) wedi dewis y Gymraeg yn ddewis iaith iddynt ar gyfer cyfathrebu.

**Question 4:** What is your preferred language of communication?

Create new action

| Available Answers | Responses | Score (%) |
|---|---|---|
| Welsh | 11 | 100.00% |
| Total | 11 | 100% |




Wrth ymateb i ail gwestiwn yr arolwg ynghylch a oedd defnyddwyr gwasanaethau'n gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith, roedd yr ymatebion yn gymysg, gyda'r rhan fwyaf yn datgan 'Bob amser' neu 'Fel arfer'.

Dros y misoedd nesaf, bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i ganiatáu am echdynnu data ar y Gymraeg ar draws pob arolwg o Brofiad Sgrinio. Bydd hyn yn galluogi gwell dealltwriaeth o ddewisiadau iaith pobl a phenderfynu a ydym yn diwallu eu hanghenion cyfathrebu. Bydd y data hefyd yn werthfawr wrth gyrraedd targedau ein Cynllun Ymgynghori Clinigol.

Hefyd, cyflwynodd Iechyd Cyhoeddus Cymru arolwg adborth penodol ar y Gymraeg, sydd ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r arolwg yn ceisio adborth ynghylch darpariaeth Gymraeg y sefydliad.

### Cardiau pabell i gynorthwyo ag ateb y ffôn

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, buom yn gweithio gyda dylunydd allanol i argraffu cardiau pabell sy'n cynorthwyo ein staff i ateb y ffôn yn ddwyieithog a datblygu eu defnydd bob dydd o gyfarchion Cymraeg. Mae'r cardiau pabell (yn y llun isod) wedi bod yn boblogaidd iawn ac maent yn cael eu rhannu yn ein digwyddiadau i staff newydd, yn ein cynhadledd staff ac mewn mannau derbynfa i staff eu helpu eu hunain iddynt, yn ogystal â bod ar gael i'w harchebu trwy ffurflen ar-lein ar unrhyw adeg.










## Cyfarfodydd a Digwyddiadau (Safonau 21–32)

Mae pob digwyddiad a gynhaliwn ar gyfer aelodau'r cyhoedd yn parhau i gael ei drefnu'n ddwyieithog gyda dogfennau dwyieithog, gan gynnwys gwahoddiadau, sleidiau

cyflwyniadau a ffurflenni adborth, yn cael eu darparu. Mae angen cofrestru ar gyfer y rhan fwyaf o'n digwyddiadau a gofynnir cwestiynau am ddewis iaith ar y dechrau, gyda chyfieithu ar y pryd yn cael ei drefnu yn ôl yr angen.

Cynhelir pob un o gyfarfodydd ein Bwrdd gyda chyfieithu ar y pryd a chroesewir ac anogir cyfraniadau a chyflwyniadau yn Gymraeg.


Mae ein rhwydwaith Cymraeg i staff, Ymlaen, a lansiwyd ym mis Mawrth 2023, wedi cynnal eu cyfarfodydd a'u digwyddiadau mewn amrywiaeth o fformatau, gyda rhai'n cael eu cynnal yn naturiol ddwyieithog a rhai yn Gymraeg gyda chymorth cyfieithu ar y pryd.

Gellir cynnal cyfarfodydd hybrid yn ddwyieithog hefyd erbyn hyn, gyda chyfieithu ar y pryd, diolch i dechnoleg a'n darparwyr cyfieithu ar y pryd allanol.

## Hyrwyddo neu hysbysebu ein gwasanaethau (Safon 33)

Fel sefydliad iechyd cyhoeddus cenedlaethol Cymru, mae'n hanfodol ein bod yn hyrwyddo ac yn hysbysebu'r gwasanaethau a gynigiwn yn gyfartal yn Gymraeg a Saesneg.

Mae'r holl ddeunyddiau hyrwyddo, gan gynnwys taflenni, pamffledi a fideos, ar gyfer ein gwasanaethau sgrinio yn cael eu cynhyrchu ac maent ar gael yn ddwyieithog. Mae enghreifftiau i'w gweld ar dudalennau gwe ein gwasanaethau Sgrinio: Sgrinio - Iechyd Cyhoeddus Cymru.




Mae gan ein Cyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant amrywiaeth eang o wasanaethau y maent yn eu hyrwyddo'n ddwyieithog. Mae'r rhain yn cynnwys Pwysau Iach Byw'n Iach, Helpa Fi i Stopio, Pob Plentyn, Hapus a Theithio Llesol i'r Ysgol. Fe wnaeth aelodau o Dîm Marchnata Cymdeithasol y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant sy'n siarad Cymraeg gymryd rhan yng ngweminar '1 Million Welsh Speakers - Let's Get Communicating' dros y flwyddyn ddiwethaf i wella eu sgiliau dylunio dwyieithog i gefnogi gweithgareddau Marchnata Cymdeithasol.

Mae enghraifft o fideo a gynhyrchwyd gan y tîm i hyrwyddo'r rhaglen Helpa Fi i Stopio ar gael yma: Stori Emma.

### Eisteddfodau

Yn 2024, croesawom y cyfle i fynychu'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd gyda'n cydweithwyr yn GIG Cymru. Rhannom wybodaeth am y gwasanaethau rydym ni'n eu cynnig ac am yrfaoedd o fewn y GIG yn gyffredinol. Hefyd, fe wnaethom rannu gwybodaeth am ein gwasanaethau Sgrinio a Helpa Fi i Stopio yn Eisteddfod yr Urdd ym Meifod, trwy ein cydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys.



*Staff Iechyd Cyhoeddus Cymru ar stondin GIG Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd ym mis Awst 2024.*

### Ffair yrfaoedd ysgolion uwchradd De Cymru

Ym mis Mehefin, ymunodd Iechyd Cyhoeddus Cymru â chydweithwyr GIG Cymru i fynychu ffair yrfaoedd wedi'i hanelu'n benodol at ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn ardal de Cymru.

Roedd yn gyfle gwych i drafod opsiynau gyrfaol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru gyda siaradwyr Cymraeg a rhoddodd ein Dysgwr Cymraeg y Flwyddyn 2024, Mike Olson, gyflwyniad ar sut mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ei gefnogi i ddysgu a datblygu ei sgiliau Cymraeg tra yn y gwaith. Rydym yn edrych ymlaen at gymryd rhan mewn ffair yrfaoedd debyg yn ystod 2025.




*Mike Olson, Swyddog Prosesu Data a Dysgwr Cymraeg y Flwyddyn Iechyd Cyhoeddus Cymru 2024, yn rhoi cyflwyniad i fyfyrwyr ysgol uwchradd Cymraeg eu hiaith o bob cwr o dde Cymru ar ei daith dysgu Cymraeg.*

## Deunyddiau rydym yn eu cynhyrchu a'u harddangos yn gyhoeddus (Safon 34)

Pan fyddwn yn arddangos deunyddiau a gynhyrchwyd gennym yn gyhoeddus, byddant bob amser yn cael eu harddangos yn Gymraeg a Saesneg.

Caiff deunyddiau eu creu'n ddwyieithog lle bynnag y bo modd fel bod y ddwy iaith yn cael eu harddangos gyda'i gilydd.

Mae ein holl ddeunyddiau cyhoeddus sy'n anelu at wella iechyd pobl Cymru ar gael i'w lawrlwytho neu eu harchebu ar ffurf copïau caled o'n gwefan: Adnoddau Gwybodaeth Iechyd - Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Dogfennau (Safonau 36-38)

Wrth baratoi ar gyfer ein gwefan newydd, mae Tîm y Gymraeg wedi gweithio'n agos gyda'r Tîm Cyfathrebu Digidol dros y flwyddyn ddiwethaf i wella'r cyngor a'r canllawiau sydd ar gael i'n staff ar gyhoeddi'n ddwyieithog.

Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar safonau 36 – 38 ac offeryn asesu, a gymerwyd o'r canllawiau a roddir yng Nghod Ymarfer Comisiynydd y Gymraeg, i gynorthwyo staff i benderfynu a oes angen sicrhau bod dogfen ar gael yn Gymraeg ai peidio. Mae adborth cychwynnol gan staff yn awgrymu bod yr offeryn asesu yn hynod ddefnyddiol a'i fod yn sicrhau cydymffurfedd â'r safonau hyn.

### Ein Canllawiau Brand

Yn 2023, fe wnaethom lansio canllawiau brand newydd Iechyd Cyhoeddus Cymru, a oedd yn cynnwys templedi PowerPoint, negeseuon 'allan o'r swyddfa' a chefndiroedd Teams i hwyluso'r broses o ddrafftio'n ddwyieithog yn weithredol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r datganiad i fodloni Safon 38, sy'n sicrhau bod ein cwsmeriaid yn gwybod bod fersiwn Gymraeg o ddogfen ar gael, wedi'i ychwanegu at yr holl dempledi dogfennau a ffurflenni yn adran y canllawiau brand, gan sicrhau bod fersiynau Cymraeg o ddogfennau ar gael yn hawdd.

Mae ein canllawiau ar ddogfennau a ffurflenni wedi cael eu rhannu'n eang dros y flwyddyn ddiwethaf gyda Rheolwyr, awduron tudalennau gwe a'n Grŵp Egwyddorion Cyhoeddiadau, a byddwn yn parhau i hyrwyddo egwyddorion y safonau hyn.

## Cyfathrebu electronig (Safonau 39–46)

### Gwefannau

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am lawer o wefannau, gan gynnwys ein prif wefan gorfforaethol: Hafan - Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae llawer o gynnydd wedi'i gyflawni yn y maes hwn dros y flwyddyn ddiwethaf, yn dilyn ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg i'n gwefannau yn ôl yn 2022.


Mae gwella ein gwefannau yn brosiect helaeth i ni ac mae'r Tîm Cyfathrebu Digidol yn gweithio'n agos gyda Thîm y Gymraeg i sicrhau y bydd ein gwefan newydd yn cydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg.

Yn ystod mis Awst, mewn partneriaeth â BIP Cwm Taf Morgannwg, fe wnaethom dreialu neges naid yn y Gymraeg ar ein gwefan, fel rhan o'n gwaith cwmpasu ar gyfer gwefan newydd Iechyd Cyhoeddus Cymru.  Llwyddodd y neges naid i gyfeirio mwy o ymwelwyr i'r wefan Gymraeg a, hefyd, cododd broffil ein cynnwys digidol Cymraeg:




O ran datblygu ein gwefan newydd, rydym wedi gwneud y cynnydd canlynol ers ein diweddariad yn ein hadroddiad blynyddol diwethaf:

- Rydym wedi penodi darparwr lletya newydd a chafodd sicrwydd cydymffurfio â gofynion y Gymraeg ei gynnwys yn y contract. Cynhwyswyd y testun canlynol yn nogfennau'r Gwahoddiad i Dendro:
    - *Cydymffurfio â WCAG 2.2, cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (safonau 39 - 43), a bod yn hawdd ei defnyddio*
    - *Galluogi Iechyd Cyhoeddus Cymru i greu, rheoli a chyhoeddi cynnwys ar draws nifer o wefannau dwyieithog a rhoi sicrwydd bod yr holl gynnwys ar gael mewn sawl iaith. Mae'r gallu i ddatblygu cynnwys ar yr un pryd yn hanfodol fel bod pob tudalen Gymraeg yn adlewyrchu ac yn cael ei chysylltu â'r dudalen Saesneg.*
    - *Gallu nodi tudalennau sydd heb dudalen Gymraeg gyfatebol*
    - *Bydd ein botwm newid iaith ar ein gwefannau yn dilyn yr un fformat â sefydliadau eraill, gan gynnwys gwefan Comisiynydd y Gymraeg:*




- Rydym wedi recriwtio pedair swydd Dylunydd Cynnwys y mae'r Gymraeg yn Hanfodol ar eu cyfer o fewn y Tîm Cyfathrebu Digidol,
- Mae gwefannau Prosiect Cyffuriau Newydd ac Adnabod Sylweddau Newydd Cymru (WEDINOS) a Chymru Iach ar Waith wedi'u cyhoeddi'n gwbl ddwyieithog.
- Mae'r broses ar gyfer datblygu ein gwefan newydd wedi cynnwys canllawiau ar gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg ym mhob cam.

- Mae gennym dîm cyhoeddi canolog i reoli cyhoeddi tudalennau, gyda cham gwirio ansawdd ychwanegol cyn cyhoeddi a sicrhau bod y tudalennau Cymraeg yn cael eu hadeiladu gan siaradwyr Cymraeg yn unig.

Mae ein prosesau archwilio ar gyfer sicrhau ansawdd gwefannau yn y dyfodol yn cynnwys:

- Ein system rheoli cynnwys (CMS) newydd, a all roi gwybod am unrhyw dudalennau neu gynnwys Cymraeg sydd ar goll.
- Gwiriadau cysondeb rheolaidd ar hap gan dîm y Gymraeg.
- Sefydlu Cymuned Ymarfer (sydd ag aelodaeth gyfredol o 150 aelod staff) i unrhyw un sydd â chyfrifoldeb am gynllunio neu gynhyrchu cynnwys digidol, gan ddarparu fforwm Holi ac Ateb pwrpasol gyda'r tîm cyhoeddi canolog a Thîm y Gymraeg.
- Canllawiau helaeth ar gymhwyso Safonau'r Gymraeg, wedi'u hysgrifennu gan Dîm y Gymraeg:


Canllawiau Safonau'r Gymraeg ar Gynhyrchu Cynnwys Digidol

Sian Jones (Public Health Wales - No.2 Capital Quarter)
Welsh Language Manager

Fel corff cyhoeddus yng Nghymru, rhaid i Iechyd Cyhoeddus Cymru gynnig gwasanaeth yn y Gymraeg ac yn Saesneg i'r cyhoedd yn unol â Safonau'r Gymraeg.

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer pob aelod o staff sy'n gyfrifol am gynhyrchu cynnwys digidol ar ran Iechyd Cyhoeddus Cymru.


Welsh Language Standards Guidance on Producing Digital Content

Sian Jones (Public Health Wales - No.2 Capital Quarter)
Welsh Language Manager

Mae'r dudalen yma ar gael yn Gymraeg / This page is available in Welsh: Canllawiau Safonau'r Gymraeg ar Gynhyrchu Cynnwys Digidol

As a public body in Wales, Public Health Wales must offer a service in both Welsh and English to the public in line with our Welsh Language Standards.

Ar hyn o bryd, mae'r gwaith ar ddatblygu gwefan newydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn mynd rhagddo'n dda. Mae gennym amserlen ddrafft ar gyfer lansio prif wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru a mudo gwefannau eraill dros y ddwy flynedd nesaf, gan flaenoriaethu gwefannau y nodwyd bod risgiau iddynt rhag cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae gwefan annibynnol newydd Cymru Iach ar Waith eisoes wedi'i chyhoeddi'n llwyddiannus gan ein darparwr lletya.

## Y Cyfryngau Cymdeithasol

Mae ein Tîm Cyfathrebu Corfforaethol yn rheoli cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae gennym ni gyfrifon X cyfochrog yn Gymraeg a Saesneg @IechydCyhoeddus ac @PublicHealthWales, a thudalennau Facebook:

www.Facebook.com/IechydCyhoeddusCymru
www.Facebook.com/PublicHealthWales.

Mae Gweithrediaeth y GIG yn rheoli ei chyfrifon cyfryngau cymdeithasol ei hun.

Rydym yn cyhoeddi postiadau ar yr un pryd ar y cyfrifon Cymraeg a Saesneg:








Iechyd Cyhoeddus Cymru
10 Apr

Diolch yn fawr iawn i Dr. Khalifa am ei ymddangosiad addysgiadol ar Prynhawn Da S4C ddoe! Mae tynnu sylw at arwyddocâd sgrinio coluddyn a'i broses brofi syml yn wych i ledaenu ymwybyddiaeth a sicrhau bod pawb yn gwybod pŵer canfod cynnar.

Dysgwch fwy am ein gwasanaeth sgrinio'r coluddyn yma 👉 https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/sgrinio/sgrinio-coluddion-cymru/

#MisYmwybyddiaethCanseryColuddyn



Public Health Wales
10 Apr

A massive diolch to Dr. Khalifa for his informative appearance on Prynhawn Da S4C yesterday! Highlighting the significance of bowel screening and its simple testing process is great to spread awareness and ensure everyone knows the power of early detection.

Find out more about our bowel screening service here 👉 https://phw.nhs.wales/services-and-teams/screening/bowel-screening/

#BowelCancerAwarenessMonth

Lle bo modd, rydym yn creu cynnwys dwyieithog i'w rannu, fel fideo a greom ni yn ystod Pencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad i annog golchi dwylo:



Iechyd Cyhoeddus Cymru
24m

Mae sgrymiau yn frwnt, ond ni ddylai eich dwylo fod! 🧼🏉

Aethon ni ar strydoedd Caerdydd i weld pa mor dda mae cefnogwyr yn gwybod eu ffeithiau golchi dwylo - efallai bydd y canlyniadau'n eich synnu! 😳

Beth yw eich techneg golchi dwylo - rinsio cyflym neu 30 eiliad llawn? 👀 Gadewch i ni wybod yn y sylwadau, byddwch yn onest! 👇



Public Health Wales
14 Mar

Scrums are dirty, but your hands shouldn't be! 🧼🏉

We took to the streets of Cardiff to see how well fans know their handwashing facts - the results may surprise you! 😳

What's your go-to handwashing technique - quick rinse or full 30 seconds? 👀 Let us know in the comments, and be honest! 👇

Dolen i'r fideo: [Golchi Dwylo – Diwrnod Gêm]

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym ni wedi cynyddu ein defnydd o blatfformau cyfryngau cymdeithasol eraill fel Instagram, LinkedIn a Tik Tok wrth i ni gydnabod pwysigrwydd defnyddio amrywiaeth o blatfformau i gyrraedd cymunedau ledled Cymru.

## Arwyddion a gwasanaethau derbynfa (Safonau 47–53)

Cyfrifoldeb ein Tîm Ystadau yw'r arwyddion yn ein hadeiladau swyddfa a'n mannau derbynfa. Mae'r tîm yn sicrhau bod yr holl arwyddion a hysbysiadau rydym ni'n eu harddangos ar gyfer staff ac aelodau'r cyhoedd yn cael eu harddangos yn Gymraeg a Saesneg.

Mae ein prif dderbynfa yn swyddfa Caerdydd wedi cael ei huwchraddio dros y flwyddyn ddiwethaf gan sicrhau bod ein cwsmeriaid yn parhau i dderbyn croeso cynnes dwyieithog.




*Ein derbynfa yn Rhif 2 Capital Quarter, Caerdydd.*

Mae pob swydd derbynnydd yn ein prif swyddfa yng Nghaerdydd ac yn ein hamrywiol leoliadau ledled Cymru yn cael eu hysbysebu'n swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, gan sicrhau ein bod ni bob amser yn gallu cyfarch ymwelwyr yn eu dewis iaith. Mae posteri Cymraeg Gwaith yn cael eu harddangos ym mhob un o'n derbynfeydd i annog defnyddio'r Gymraeg ac mae staff yn gwisgo laniardiau a bathodynnau Cymraeg Gwaith bob dydd.

## Grantiau a chontractau (Safonau 54–64)

Mae pob grant a reolir gennym fel sefydliad yn cydymffurfio'n llawn â'r safonau perthnasol, gyda deunyddiau grant ar gael yn Gymraeg a Saesneg a data ar ddewis iaith yn cael ei gasglu ar gyfer gohebiaeth yn y dyfodol.

Mae holl ddogfennau a phrosesau tendr Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu cydlynu drwy wasanaethau caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC).

Yn ystod gwanwyn 2024, cynhaliodd Tîm y Gymraeg broses gaffael ar gyfer gwasanaethau cyfieithu a arweiniodd at sefydlu contract fframwaith cyfieithu Cymraeg newydd ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Tachwedd 2024. Roedd yr holl ddogfennau tendr ar gael yn Gymraeg, cynhaliwyd gohebiaeth â chyflenwyr yn Gymraeg a Saesneg ac roedd y broses werthuso yn ddwyieithog.

Sefydlodd y broses hon berthynas waith gadarnhaol rhwng Tîm y Gymraeg yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a Thîm Caffael PCGC, sydd bellach yn sicrhau bod Tîm y Gymraeg yn gallu

cynnwys manylion a disgwyliadau'r Gymraeg mewn llawer o brosesau tendro yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys y tendr ar gyfer gwefannau yn yr hydref, gan sicrhau bod darparwyr trydydd parti yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau deddfwriaethol yn unol â Safonau'r Gymraeg.


Dros y flwyddyn nesaf, bydd Tîm y Gymraeg yn parhau i weithio gyda chydweithwyr Caffael i ddiweddaru a chyhoeddi canllawiau ar y Gymraeg mewn Caffael a sicrhau bod hyn ar gael yn eang i staff trwy ein safleoedd SharePoint.

## Hyrwyddo ein gwasanaethau (Safonau 60 - 62)

Mae ein holl wasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru ar gael yn ddwyieithog ac rydym yn hyrwyddo'r gwasanaethau hynny lle bynnag y gallwn.

Mae timau Pwysau Iach Byw'n Iach a Helpa Fi i Stopio yn hyrwyddo eu cynnig Cymraeg unigryw yn rheolaidd o'i gymharu â'r nifer o adnoddau tebyg sydd ar gael yn Saesneg. Mae gan y ddwy raglen wefan (Pwysau Iach Byw'n Iach / Helpa Fi i Stopio) a phlatfformau cyfryngau cymdeithasol cwbl ddwyieithog ac mae'r cynnwys wedi'i ddrafftio ar y cyd ar gyfer y gwefannau Cymraeg a Saesneg gan y siaradwyr Cymraeg yn y tîm, gan sicrhau bod y cynnwys yn ystyrlon yn y ddwy iaith ac nad yw'n gyfieithiad uniongyrchol. Mae'r rhaglenni hefyd yn hyrwyddo eu gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg drwy hysbysebion a ddarlledir ar S4C a Radio Cymru.




Mae ein henw Cymraeg yn dod yn gyntaf ar hunaniaeth gorfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Adlewyrchir hyn hefyd mewn brandiau eraill sy'n rhan o waith y sefydliad. Mae rhai enghreifftiau o hyn isod:




Lle rydym wedi nodi bod testun Saesneg yn ymddangos yn gyntaf ar logos a brandio ar hyn o bryd, bydd y rhain yn cael eu diweddaru cyn gynted â phosibl.

Lle y gallwn, rydym yn defnyddio brandio Cymraeg yn unig i hyrwyddo ein gwasanaethau. Enghraifft o hyn yw rhaglen Hapus: Hafan - Hapus sy'n cefnogi ein llesiant meddyliol ac sydd â chynnwys a luniwyd yn benodol ar gyfer siaradwyr Cymraeg, fel ffilm fer gan yr awdur Manon Steffan Ros.

Mae gan bob cyfeiriad e-bost a grëwyd ers 2019, a ddefnyddir gan aelodau'r cyhoedd i gael mynediad i'n gwasanaethau, fersiwn Gymraeg wedi'i chreu yn ddiofyn. Mae'n bosibl nad oes gan rai cyfeiriadau e-bost hŷn, a oedd yn bodoli cyn Safonau'r Gymraeg, fersiwn Gymraeg ond maent yn cael eu diweddaru gan ein cydweithwyr TG ar hyn o bryd.

## Cyrsiau addysg (Safon 63)

Fel sefydliad iechyd cyhoeddus cenedlaethol Cymru, rydym yn cynnig llawer o gyrsiau addysg i'r cyhoedd ac i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ledled Cymru.

Pan gynhelir ein cyrsiau addysg mewn amser real, naill ai ar-lein neu wyneb yn wyneb, cynigir cyrsiau yn Gymraeg a Saesneg ac fe'u cyflwynir yn unol â hynny. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau a gyflwynir gan ein Tîm Ymgysylltu â Sgrinio a'r Gyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant.

Rydym yn cynnig llawer o gyrsiau ar-lein hefyd, sydd ar gael yn Gymraeg neu Saesneg. Enghraifft o'r rhain yw ein hadnoddau dysgu ar wefan Cymru Iach ar Waith: Adnoddau dysgu - Cymru Iach ar Waith.

### Safonau Llunio Polisi (Safonau 65–77)

Dros y flwyddyn ddiwethaf, yn dilyn y gwaith ymholi a'r canllawiau a gafwyd gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi sefydlu a chynnal peilot o Hwb Llywodraethu newydd. Mae'r Hwb yn dwyn ynghyd yr holl feysydd ar draws y sefydliad sydd â gofyniad deddfwriaethol arnynt i asesu effaith ein penderfyniadau strategol mewn un lle. Fel arbenigwr pwnc, mae ein Rheolwr y Gymraeg yn aelod o banel yr Hwb Llywodraethu.

Nod yr Hwb Llywodraethu yw darparu'r safon uchaf o sicrwydd, cydymffurfedd ac effeithlonrwydd.

Mae'r Hwb yn cyfeirio ac yn darparu cyngor ac arweiniad drwy dirwedd llywodraethu Iechyd Cyhoeddus ac mae'n sicrhau bod ymgynghori priodol â meysydd perthnasol ar benderfyniadau, newid sefydliadol a phrosiectau newydd. Wrth sefydlu'r Hwb, sefydlwyd y Grŵp Deddfau, Dyletswyddau a Safonau hefyd, gan ddarparu dull i'r arweinwyr hyn, gan gynnwys cynrychiolydd ar gyfer Safonau'r Gymraeg, fod mewn sefyllfa i ddarparu arbenigedd pwnc sy'n cefnogi perchnogion gwaith ag asesu effaith a datblygu datrysiadau.

Mae dogfen a chanllaw manwl ar Asesu Effaith Safonau'r Gymraeg wedi'u drafftio gan Reolwr y Gymraeg fel rhan o'n pecyn asesu effaith.

Mae'r dull hwn yn cynnig y cyfle i wella ein defnydd o'r Gymraeg ar gyfer staff a defnyddwyr gwasanaethau mewn darnau newydd o waith, yn ogystal â darparu llwybr cydymffurfio wedi'i deilwra i Safonau'r Gymraeg.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar waith yr Hwb a'i weithredu dros y flwyddyn ariannol nesaf.

### Safonau Gweithredu (79-114)

## Defnydd mewnol o'r Gymraeg (Safonau 79–95)

Mae gan y Gymraeg le amlwg yn ein 'Strategaeth Bobl 2020–30: Ein Gweithlu i wireddu dyfodol iachach i Gymru'.

Mae'n nodi bod angen i Iechyd Cyhoeddus Cymru:

- ddenu arbenigwyr pwnc sydd â sgiliau Cymraeg lefel uchel mewn rolau rheng flaen
- blaenoriaethu nodi bylchau mewn sgiliau, recriwtio a dysgu Cymraeg er mwyn sicrhau bod gennym ddigon o siaradwyr Cymraeg mewn rolau rheng flaen
- cefnogi defnyddwyr data'r Gymraeg i fonitro'r defnydd o wasanaethau ac adolygu anghydraddoldebau iechyd a darpariaeth Gymraeg
- cefnogi ein gweithwyr i ddefnyddio rhyngwynebau a meddalwedd Gymraeg
- deall effaith gofynion y Gymraeg ar ein gallu i ddenu a recriwtio
- denu carfan gyfoethog o ymgeiswyr, gan gynnwys niferoedd digonol o siaradwyr Cymraeg, ar gyfer pob swydd wag
- cynyddu gallu a chynhwysedd yn gysylltiedig â sgiliau Cymraeg
- sicrhau bod cynnig clir, cynaliadwy a thargedig ar gael ar gyfer caffael, datblygu a chefnogi sgiliau Cymraeg, yn seiliedig ar anghenion a nodwyd ar gyfer gwasanaeth a deilliannau i weithwyr

Mae ein Strategaeth Bobl wrthi'n cael ei diwygio a bydd fersiwn wedi'i diweddaru'n cael ei chyhoeddi'n fuan.

## Polisi ar y defnydd mewnol o'r Gymraeg (Safon 79)

Cyhoeddwyd ein polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol at ddiben hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ar dudalen yr Iaith Gymraeg ar ein gwefan ym mis Medi 2023: Polisi ar y Defnydd o'r Gymraeg o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Yn hytrach nag edrych ar elfen ddeddfwriaethol a chydymffurfedd y Gymraeg yn y gweithle, mae'r polisi'n edrych ar y diwylliant dwyieithog cryf sy'n bodoli yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn annog ein staff i gofleidio'r Gymraeg a defnyddio'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt ddysgu a datblygu eu sgiliau Cymraeg wrth iddynt weithio. Bydd ein polisi yn cael ei ddiwygio a'i ddiweddaru yn ystod 2026.

Mae crynodeb o'r cyfleoedd sydd ar gael i'n staff ddefnyddio eu Cymraeg yn y gwaith wedi'u hamlinellu isod:

## Cyfleoedd i staff ddefnyddio eu Cymraeg yn Iechyd Cyhoeddus Cymru

### Diweddariad gan rwydwaith staff Ymlaen ac Wythnos y Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae Ymlaen (rhwydwaith y Gymraeg ar gyfer staff Iechyd Cyhoeddus Cymru) bellach wedi bod ar waith ers dwy flynedd ac mae'n parhau i fynd o nerth i nerth. Mae ymhell dros 100 o aelodau erbyn hyn, gyda siaradwyr iaith gyntaf a dysgwyr ar bob lefel o bob rhan o'r sefydliad yn dod at ei gilydd i hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant a dangos bod yr iaith yn perthyn i bob un ohonom.

Ym mis Mawrth, fe wnaethom ddathlu Wythnos y Gymraeg gyda llu o ddigwyddiadau, gan gynnwys perfformiad gan gôr o Ysgol Glan Morfa, yn ogystal â chystadleuaeth pobi Gymreig a sgwrs addysgiadol a difyr gan gyflwynydd S4C a'r BBC, Catrin Heledd. Croesawom ni Osian Llywelyn, Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg, i ddigwyddiad ar-lein i drafod ehangder gwaith swyddfa'r Comisiynydd a chynhaliom sesiwn Cyflwyno'r Gymraeg: Agor y drws i staff y GIG yng Nghymru.

Crëwyd poteli dŵr amldro Ymlaen i ddathlu'r wythnos a'u rhannu ag aelodau'r rhwydwaith. Roedd yr wythnos yn llwyddiant mawr o ran codi proffil y Gymraeg a rhwydwaith staff Ymlaen o fewn y sefydliad, gyda phostiadau ar gyfryngau cymdeithasol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a sefydliadau eraill. Edrychwn ymlaen at adeiladu ar y llwyddiant hwn yn 2026.






*Lluniau o Wythnos y Gymraeg 2025*

Uchafbwynt arall y flwyddyn oedd sgwrs a roddwyd gan y cyfieithydd Adam Pearce, a ddisgrifiodd y broses o greu'r cyfieithiad Cymraeg cyntaf erioed o *The Hobbit* gan JRR Tolkien. Bu'r sesiwn yn gipolwg diddorol tu hwnt ar gelfyddyd gymhleth addasu ffuglen glasurol mewn ffordd sy'n cadw uniondeb y testun gwreiddiol ac ar yr un pryd yn dathlu a chofleidio'r Gymraeg a'i diwylliant.

Mae cynlluniau eisoes ar waith ar gyfer amrywiaeth o ddigwyddiadau yn 2025 – 2026, gan gynnwys sgwrs gyda Pharc Cenedlaethol Eryri a Chanolfan Bedwyr. Edrychwn ymlaen at barhau i hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant dros y flwyddyn nesaf.

**Dathlu Safonau'r Gymraeg**

Ym mis Mai, fe wnaethom ni fanteisio ar y cyfle i ddathlu pum mlynedd ers cyflwyno Safonau'r Gymraeg drwy gynnal digwyddiad Cymraeg 2050 gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, gan drafod Safonau'r Gymraeg, Mwy na Geiriau a strategaeth a tharged Llywodraeth Cymru ar gyfer 2050.

Hefyd, fe wnaethom ni gyhoeddi stori newyddion i staff i ddathlu pum mlynedd o'r Safonau a'r holl ddatblygiadau cadarnhaol sydd wedi digwydd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ers hynny, i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn ein gwasanaethau.

## Sesiynau Cyflwyno'r Gymraeg: Agor y drws

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein staff wedi bod yn ffodus i fanteisio ar sesiynau 'Cyflwyno'r Gymraeg: Agor y Drws' a gynhelir gan Mererid Hopwood a Mandy Morse o Brifysgol Aberystwyth ac a ddarperir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru.







Mae'r sesiynau wedi cael croeso cadarnhaol iawn gan staff ar draws y sefydliad. Cynhaliwyd pedair sesiwn i'n staff dros y flwyddyn ac, yn dibynnu ar gyllid, gobeithiwn gynnig sesiynau pellach yn ystod 2025 – 2026.

## Dogfennau a gweithdrefnau staff (Safonau 80 - 88)

## Dogfennau ar gyfer staff (Safon 81)

Mae pob dogfen sy'n ymwneud â chyflogaeth, fel y llythyr cynnig a'r contract cyflogaeth, yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog yn ddiofyn drwy system Trac gan y Tîm Recriwtio ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Mae ffurflenni Fy Nghyfraniad, y mae staff yn eu defnyddio i gofnodi amcanion perfformiad ar gyfer y flwyddyn, ar gael yn ddwyieithog. Mae polisi Fy Nghyfraniad ar gael ar ein gwefan: Polisi Fy Nghyfraniad - Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae'r ffurflenni ar gael i staff gael atynt yn fewnol.

Mae staff yn rheoli eu hanghenion gwyliau blynyddol a hyfforddiant ar system y Cofnod Staff Electronig (ESR). Nid yw pob rhan o'r system ar gael yn y Gymraeg, ond mae cynlluniau ar waith i gaffael system newydd yn lle ESR ar lefel genedlaethol dros y blynyddoedd nesaf.

Mae ein holl bolisïau staff wedi'u cyhoeddi'n ddwyieithog ar ein gwefan a gellir eu gweld yma: Polisïau Adnoddau Dynol - Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi diwygio a diweddaru ein polisi Recriwtio a Dethol, sy'n cynnwys adran fanwl ar ganllawiau ynghylch y Gymraeg. Gellir gweld y polisi ar y dudalen we uchod.

## Meddalwedd cyfrifiadurol i staff (Safon 89)

Mae meddalwedd Cysgliad ar gael i holl staff Iechyd Cyhoeddus Cymru wirio gramadeg a sillafu drwy gontract ledled GIG Cymru gyfan sy'n cael ei ddal gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Yn hanesyddol, mae'r canllawiau ar sut i gael mynediad at Cysgliad wedi bod yn hir ac yn gymhleth i'w dilyn, gan greu rhwystr i rai staff rhag gallu cael mynediad at Cysgliad

a'i lawrlwytho ar eu cyfrifiaduron personol. Mae Tîm y Gymraeg wedi gweithio'n agos gyda TG i symleiddio hyn i staff drwy sefydlu proses gyflym o ychwanegu'r feddalwedd eu hunain mewn eiliadau. Mae Cysgliad bellach ar gael ar gyfrifiaduron pob aelod o staff, dim ond ei osod drwy borth hunanwasanaeth y bydd angen iddynt ei wneud.

Mae'r Tîm Cyfathrebu Mewnol wedi codi ymwybyddiaeth bod y feddalwedd hon bellach ar gael drwy straeon newyddion staff a gellir casglu data ar nifer y defnyddwyr yn ôl y gofyn.

## Mewnrwyd Staff (Safonau 90 – 95)

Mae ein tudalennau mewnrwyd staff yn cael eu rheoli gan ein Tîm Cyfathrebu Mewnol sy'n gweithio'n agos gyda Thîm y Gymraeg i sicrhau bod y tudalennau adrannol perthnasol yn cydymffurfio â Safonau perthnasol y Gymraeg.

Cyhoeddir pob stori newyddion staff yn ddwyieithog yn awtomatig ac mae llawer o adrannau'n dewis cael tudalennau mewnrwyd dwyieithog, er nad yw eu gwaith wedi'i enwi o fewn y safonau.

Mae Tîm y Gymraeg yn rheoli ac yn cynnal tudalennau'r fewnrwyd sy'n rhoi gwybodaeth ac arweiniad i staff ar y Gymraeg. Enw'r adran hon o'r fewnrwyd yw Hwb yr Iaith Gymraeg ac mae'n cynnwys adrannau ar Ddysgu Cymraeg, cyngor a chysylltiadau ar gyfer Cyfieithu, Adnoddau, Deddfwriaeth a fideos Iaith Gymraeg sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a'r cynnig rhagweithiol. Mae'r tudalennau'n cael eu diweddaru'n barhaus gan y tîm, gyda chanllawiau a thempledi newydd yn cael eu hychwanegu yn ôl yr angen.







## Hyfforddiant staff (Safonau 96–103)

### Sgiliau Cymraeg ein gweithlu (Safon 96)

Er mwyn ein helpu i ddeall gallu'r Gymraeg ar draws y sefydliad a chynllunio'r gefnogaeth gywir yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae'n bwysig i bob aelod o staff gofnodi eu sgiliau Cymraeg, ni waeth beth fo'u rôl neu eu lleoliad. Gofynnir i bob aelod newydd o staff asesu a chofrestru eu lefel bresennol o Gymraeg.

I sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn gywir, rydym yn atgoffa staff ar wahanol adegau yn ystod y cylch oes cyflogaeth. Er enghraifft, cânt eu hannog i gofnodi eu sgiliau yn ystod recriwtio, wrth osod nodau ar eu ffurflen 'Fy Nghyfraniad', a phryd bynnag y byddant yn gwella eu sgiliau iaith trwy hyfforddiant.

Erbyn diwedd mis Mawrth 2025, roeddem yn falch o weld bod **97%** o'n gweithwyr wedi cofrestru lefel eu sgiliau Cymraeg ar system y Cofnod Staff Electronig (ESR).

I gefnogi staff, mae Tîm y Gymraeg wedi llunio canllaw cam wrth gam clir a syml ar sut i gofnodi sgiliau iaith. Gellir dod o hyd iddo ar Hwb y Gymraeg.

## Helpu Staff i Wella eu Sgiliau Iaith Gymraeg (Safonau 96–103)

### Cyfleoedd hyfforddi yn benodol ar gyfer y sector Iechyd a Gofal

Rydym wedi bod yn ffodus i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi a ddarparwyd yn benodol ar gyfer y sector Iechyd a Gofal yng Nghymru ac a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae ein darparwr hyfforddiant, Coleg Cambria, wedi darparu sesiynau Codi Hyder a sesiynau Croeso i'n staff dros y flwyddyn. Mae manylion y ddau gyfle isod:

### Codi Hyder

- Wedi'i dargedu at staff sy'n siarad Cymraeg (lefel 3 ac uwch) sydd heb yr hyder i ddefnyddio eu Cymraeg
- Trefnir sesiynau mentora iaith 1:1 ar-lein ar adegau sy'n addas i'r unigolyn.
- Cymorth wedi'i deilwra i anghenion pob unigolyn – er enghraifft, dysgu geiriau defnyddiol ar gyfer eu rôl.
- Mae'r cynllun yn hyblyg a gall ffitio o amgylch gwahanol amserlenni gwaith.

Yn ystod 2024 – 2025, cynhaliwyd tair carfan o staff gyda phob carfan yn para 10 i 12 wythnos a chymerodd cyfanswm o 53 o staff ran yn y cynllun.

Pan fydd aelodau staff wedi cwblhau eu cwrs, mae cynnig cyfleoedd ôl-ofal, fel ein cynlluniau mentor a chyfeillion mewnol, sy’n cael eu hegluro isod, yn cael ei anfon atynt fel y gallant barhau i ddefnyddio eu Cymraeg.

### Croeso

Rydym hefyd yn falch o fod wedi cyflwyno'r cwrs 'Croeso Cymraeg' yn 2024–25, mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Gofal Iechyd Digidol Cymru a'n cyflenwr, Coleg Cambria. Cynigir y sesiynau i staff â lefel sgiliau 0, nad ydynt yn gyfarwydd o gwbl â’r Gymraeg, a chawsant eu lansio ym mis Ionawr 2025.

Mae'r sesiynau awr a chwarter hyn wedi helpu cydweithwyr i ddysgu ymadroddion a chyfarchion cwrteisi sylfaenol yn y Gymraeg, sy'n cyd-fynd â nod Llywodraeth Cymru y bydd gan holl staff GIG Cymru o leiaf lefel cwrteisi yn y Gymraeg erbyn 2027, fel rhan o fframwaith strategol 'Mwy na Geiriau'. Mynychodd 75 o staff y GIG y sesiynau, a gynhaliwyd o fis Ionawr i fis Mawrth 2025.

Mae cadarnhad wedi dod i law y bydd cyfleoedd hyfforddi Croeso a Chodi Hyder yn parhau i gael eu cynnig i staff yn ystod 2025 – 2026.

### Dysgu Cymraeg ledled Cymru

Rydym yn parhau i annog yr holl staff i wella eu Cymraeg drwy gyrsiau ar-lein a gynigir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol o dan gynllun Cymraeg Gwaith. Mae'r cyrsiau hyn ar gael yn rhad ac am ddim a gall gweithwyr eu cwblhau ar-lein, ar adeg sy'n addas i'w hamserlen – rydym yn annog dysgu yn ystod amser gwaith. Os oes rhaid talu am gwrs, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn talu'r gost, gan ddileu rhwystrau ariannol i staff sydd eisiau dysgu.

Ym mlwyddyn ariannol 2024–25, roedd 50 o bobl wedi cofrestru ar gyfer cyrsiau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Dyma ddadansoddiad manwl o ba gyrsiau y mae staff wedi cofrestru arnynt:

| Enw'r Cwrs | Nifer y Staff (01.04.2024 – 31.03.2025) |
|---|---|
| Croeso 1 | 30 |
| Croeso 2 | 4 |
| Croeso Nôl 1 | 10 |
| Croeso Nôl 2 | 1 |
| Gwella Eich Cymraeg 1 | 4 |
| Sector Iechyd 1 | 1 |
| Cyfanswm | 50 |

### Defnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith: Defnyddio Cymraeg Gwaith

Rydym hefyd yn cynnig cyrsiau uwch drwy Nant Gwrtheyrn, sy'n cyflwyno sesiynau ar-lein ac wyneb yn wyneb. Mae'r cyrsiau hyn yn rhan o fenter Defnyddio Cymraeg Gwaith, sy'n helpu staff i ddod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle – boed hynny mewn negeseuon e-bost, sgyrsiau, neu wrth ddarparu gwasanaethau.

Yn 2024–25, aeth 5 aelod o staff ar gyrsiau lefelau Canolradd, Uwch a Gloywi.

### Dysgu Cymraeg ledled Cymru

Mae ein staff yn defnyddio amrywiaeth o ddarparwyr Dysgu Cymraeg i gael at eu cyrsiau, yn dibynnu ar eu lleoliadau ledled Cymru.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae 24 aelod o staff wedi cwblhau cyrsiau o lefel Mynediad hyd at lefel Uwch gydag amrywiol ddarparwyr dysgu Cymraeg.

### Cefnogi'r Gymraeg yn y Gweithle

Yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, rydym yn falch o'n dysgwyr Cymraeg ac yn gwneud popeth o fewn ein gallu i'w cefnogi i ddatblygu a defnyddio eu Cymraeg.

Dyma rai o'r ffyrdd rydym yn cefnogi ein staff:

- Rydym yn cynnal sesiwn sgwrsio Cymraeg anffurfiol wythnosol bob bore Gwener trwy Microsoft Teams. Mae'r sesiynau hyn ar agor i bob aelod o staff, ni waeth beth fo'u lefel.

- Rydym yn cynnig cynllun mentora lle mae siaradwyr hyderus yn cael eu paru â dysgwyr mwy datblygedig ond llai hyderus.
- Yn yr un modd, rydym yn cynnig cynllun cyfaill, lle mae 2 gydweithiwr o allu tebyg yn cael eu paru i hwyluso dysgu ac i adeiladu rhwydweithiau.
- Mae ein rhwydwaith iaith Gymraeg, Ymlaen, yn cynnig lle croesawgar i ddysgwyr gyfarfod, rhannu ac ymarfer eu Cymraeg. Mae cydweithiwr a ddysgodd yr iaith fel oedolyn bellach yn cyd-gadeirio'r rhwydwaith, gan bwysleisio'r llwybrau sydd ar gael i staff gyfrannu at ddiwylliant dwyieithog y sefydliad, ni waeth beth fo'u gallu ieithyddol a'u cefndir.

Byddwn yn parhau i ddatblygu a hyrwyddo cyfleoedd dysgu Cymraeg presennol dros y flwyddyn nesaf ac yn helpu pob aelod o staff i ddod o hyd i'r fenter neu'r cwrs cywir ar gyfer eu nodau.

### Hyfforddiant y Gymraeg i reolwyr

Dros y flwyddyn nesaf, rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'n darparwr hyfforddiant allanol, HICO, i gynnig hyfforddiant i reolwyr a staff yn unol â Safonau'r Gymraeg 97, 98 a 99(b)

## Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (Safon 102)

Mae modiwl hyfforddi ar-lein Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn rhan o'r hyfforddiant gorfodol statudol y mae'n rhaid i bob aelod o staff ei gwblhau ac mae angen ei adnewyddu bob 3 blynedd. Dyma'r prif hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a gynigir i staff o hyd.

Ar 31 Mawrth 2025, roedd 96.7% o aelodau staff Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cwblhau'r modiwl. Mae hyn yn uwch na tharged Llywodraeth Cymru, sef 90%. Rydym yn falch iawn ein bod wedi rhagori ar y targed ac yn ddiolchgar i'n staff am sicrhau eu bod yn cwblhau'r modiwl ac, felly, bod ganddynt ddealltwriaeth llawer gwell o'r Gymraeg o fewn GIG Cymru.



I ategu'r hyfforddiant a roddir yn modiwl y Cofnod Staff Electronig, mae Tîm y Gymraeg yn cynnig hyfforddiant ychwanegol ar Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg y gellir ei deilwra ar gyfer meysydd gwasanaeth a thimau. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rhoddwyd hyfforddiant mewn cyfarfod yng Ngogledd Cymru o Dîm Sgrinio Anewrysm Aortig yn yr Abdomen (AAA) a bwriedir cynnal sesiynau pellach yn ystod 2025 – 2026.

## Ymsefydlu staff (Safon 103)

Yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, rydym yn deall pwysigrwydd sicrhau bod aelodau staff newydd yn cael eu cyflwyno i sefydliad dwyieithog o'r cychwyn cyntaf, a'u bod yn sylweddoli pwysigrwydd gweithio'n ddwyieithog a chynnig gwasanaeth dwyieithog, yn ogystal â sut i wneud hyn a chael cefnogaeth.

Mae Tîm y Gymraeg yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr o fewn y Gyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol i sicrhau bod hyn yn digwydd ac i wneud gwelliannau lle y gallwn.

Pan fydd aelod newydd o staff yn ymuno ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, byddant yn:

- derbyn gwybodaeth am y Gymraeg yn y gweithle yn eu llythyr croeso, sy'n cynnwys dolenni uniongyrchol i dudalennau Hwb y Gymraeg.
- cael eu gwahodd i sgwrs Teams ar-lein i ddechreuwyr newydd o fewn eu mis cyntaf lle mae gwybodaeth am y Gymraeg a sut i gael gafael ar wybodaeth yn cael ei rhannu
- cael dolen gan eu rheolwr i dudalen 'Pethau y mae angen i chi eu gwybod i'ch rhoi ar ben ffordd' ar fewnrwyd y staff ac i adran ar yr iaith Gymraeg sy'n cynnwys rhestr wirio ar gyfer dechreuwyr newydd
- cael eu hannog i wylio fideo newydd '*Croeso i Iechyd Cyhoeddus Cymru*' a gyhoeddwyd mewn partneriaeth rhwng y Tîm Cyfathrebu a Thîm y Gymraeg, sy'n cyflwyno'r Gymraeg o fewn y sefydliad.




- bydd staff newydd hefyd yn cael eu gwahodd i un o'n diwrnodau sefydlu chwarterol wyneb yn wyneb yn ein swyddfa yng Nghaerdydd. Mae'r diwrnod yn gyflwyniad i Iechyd Cyhoeddus Cymru a'n gwaith ac mae'n cynnwys marchnadfa lle mae Tîm y Gymraeg yn rhannu deunyddiau Cymraeg Gwaith, gwybodaeth am y cyfleoedd i ddysgu a datblygu sgiliau Cymraeg yn ogystal â ble i gael gwybodaeth ynghylch cydymffurfio â deddfwriaeth y Gymraeg.
- Bydd rhai timau hefyd yn trefnu cyfarfod sefydlu gyda Thîm y Gymraeg, yn enwedig os bydd deddfwriaeth y Gymraeg yn effeithio ar eu gwaith neu os ydynt mewn rôl lle maent yn delio â chwsmeriaid. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Tîm y Gymraeg

wedi cynnal cyfarfodydd sefydlu gyda phob aelod newydd o'r Tîm Cyfathrebu a chyda charfan newydd o Gofrestryddion.

Mae canllawiau cyfatebol ar y Gymraeg a llawlyfr i reolwyr hefyd wedi'u cynnwys yn ein gwybodaeth ymsefydlu i reolwyr dros y flwyddyn ddiwethaf, ar gyfer rheolwyr llinell aelodau newydd o staff ac ar gyfer rheolwyr newydd o fewn y sefydliad. Mae'r ddau ddatblygiad hyn wedi'u rhannu ag aelodau Grŵp y Gymraeg i'w hanfon ymlaen at staff y Gyfarwyddiaeth.

Mae gan rai adrannau unigol eu prosesau ymsefydlu eu hunain hefyd ar gyfer eu haelodau staff, sy'n cynnwys dolenni i'r canllawiau a'r wybodaeth uchod am y Gymraeg.

## Iaith Gwaith (Safonau 104 -105)


Mae ein canllawiau brand, a lansiwyd yn 2023, yn cynnwys templedi llofnodion e-bost y gall staff eu lawrlwytho a'u defnyddio'n hawdd. Argymhellir bod pob aelod o staff yn defnyddio'r templedi gan eu bod wedi'u brandio'n gorfforaethol. Mae ein llofnodion e-bost yn cynnwys datganiad ynghylch cyfathrebu yn Gymraeg ac mae ganddynt opsiynau ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i staff ddewis ohonynt.

Mae templedi'r brand hefyd yn cynnwys templed PowerPoint dwyieithog i staff ei ddefnyddio ar gyfer cyflwyniadau allanol a thempled cefndir Teams i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg.  Gwelir enghreifftiau isod.










Mae laniardiau a bathodynnau Cymraeg Gwaith yn ogystal â chardiau pabell ar gael i staff drwy:

- dudalen adnoddau Hwb y Gymraeg; mae gennym ganllaw cyflym i staff ar lofnodion e-bost a negeseuon allan o'r swyddfa dwyieithog.
- mae gennym ffurflen archebu ar-lein syml y gall staff ei defnyddio i gael deunyddiau 'Cymraeg Gwaith'. Ar ôl eu harchebu, cânt eu dosbarthu gan Dîm y Gymraeg.
- basgedi o nwyddau mewn rhai mannau derbynfa i staff eu helpu eu hunain iddynt
- hefyd, mae Tîm y Gymraeg wedi dylunio a rhannu posteri gyda chodau QR ar gyfer ein staff sy'n gweithio mewn labordai a lleoliadau sgrinio, nad oes ganddynt fynediad rheolaidd at liniaduron bob amser.   Mae'r codau QR yn golygu y gall staff gael at dudalennau mewnrwyd Hwb y Gymraeg a'r ffurflen archebu ar eu dyfais symudol a bydd y deunyddiau'n cael eu postio i'w lleoliad.

## Recriwtio (Safonau 106–109)

Ochr yn ochr â datblygu sgiliau Cymraeg ein gweithwyr, mae recriwtio staff dwyieithog yn rhan o'n dull o gynllunio'r gweithlu i sicrhau y darperir gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Mae offeryn asesu sgiliau iaith Gymraeg wedi bod yn rhan annatod a gorfodol o'r broses recriwtio ers blynyddoedd lawer, ac mae Tîm y Gymraeg yn gweithio'n rheolaidd gyda rheolwyr i

sicrhau bod eu swyddi gweigion Cymraeg hanfodol yn cael eu targedu a'u marchnata tuag at gymunedau Cymraeg eu hiaith.

Mae ein teclyn asesu presennol yn eithaf hir fodd bynnag, a'n nod yw adolygu a gwella ein prosesau presennol ar gyfer asesu sgiliau iaith rolau dros y flwyddyn ariannol nesaf.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Tîm y Gymraeg wedi recriwtio aelod allweddol o staff, ein Cydlynydd Cyfieithu, ac mae'r Tîm Cyfathrebu wedi recriwtio siaradwyr Cymraeg i bedair swydd sydd â chyfrifoldeb am gynnwys ein gwefannau. Hefyd, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr adrannau sy'n defnyddio gwefannau recriwtio Cymraeg i hysbysebu eu rolau.







### Hyfforddiant Cynllunio a Rheoli Gweithleoedd Dwyieithog ar gyfer staff Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ym mis Gorffennaf, cynhaliodd Academi Cymraeg Gwaith ddwy sesiwn hyfforddi ar Gynllunio a Rheoli Gweithleoedd Dwyieithog, a oedd wedi'u teilwra ar gyfer staff Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cynigiwyd lleoedd i'n staff ni fynychu'r hyfforddiant a fyddai'n cefnogi ein gwaith dylunio gweithlu dwyieithog, ac aeth naw aelod o staff i'r hyfforddiant, a gafodd groeso mawr.

### Cynllunio'r Gweithlu yn Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae llawer iawn o waith wedi digwydd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru eleni i ddatblygu pecyn cymorth sy'n cynorthwyo ein cyfarwyddiaethau i gynllunio eu gweithlu yn strategol ar gyfer y dyfodol. Cafodd ystyriaethau'r Gymraeg eu cynnwys yn y pecyn cymorth hwn ac roedd cynllunio'r gweithlu ar gyfer y Gymraeg hefyd yn ffocws allweddol yn y sesiynau hyfforddiant a ddarparwyd gennym i dros 120 o unigolion ar draws y sefydliad.

Mae pob cyfarwyddiaeth bellach wedi creu rhestr o gamau gweithredu ailadroddus y byddant yn gweithio tuag atynt dros y deng mlynedd nesaf, ac mae gwaith ar y gweill i fireinio a chryfhau'r camau gweithredu sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo'r Gymraeg a datblygu sgiliau Cymraeg. Bydd mireinio targedau'r Gymraeg yn flaenoriaeth i ni dros y flwyddyn nesaf.

### Gwelliannau i'n Swydd-ddisgrifiadau

Mae'r Tîm Adnoddau wedi gweithio gyda Thîm y Gymraeg i ddiweddaru'r testun cyffredinol yn ein hysbysebion a'n swydd-ddisgrifiadau fel bod darpar ymgeiswyr yn ymwybodol o'r cyfleoedd dysgu a datblygu'r Gymraeg sydd ar gael iddynt yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r testun hwn bellach yn rhan o'n hysbysebion swyddi: *Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo i gefnogi ei staff i gofleidio'r angen am ddwyieithrwydd yn llawn a thrwy hynny wella*

*profiadau cwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaethau. Yn ein hymrwymiad i gynyddu nifer y staff sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg â chwsmeriaid a gweithwyr proffesiynol, rydym yn croesawu ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg.*

Mae'r testun hwn bellach yn rhan o'n swydd-ddisgrifiadau: *Mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn ddymunol/hanfodol ar gyfer y swydd hon. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnig amrywiaeth o opsiynau dysgu a chymorth i staff i'ch helpu i fodloni'r gofynion hyn a datblygu eich sgiliau Cymraeg yn ystod eich cyflogaeth gyda ni.*

## Cynllun Ymgynghoriadau Clinigol (Safon 110 – 110A)

Cyhoeddwyd ein Cynllun Ymgynghoriadau Clinigol ym mis Medi 2023: Cynllun Ymgynghoriadau Clinigol yn Gymraeg

Mae'r cynllun yn manylu ar ein huchelgais i wella ein gallu i gynnig ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg dros gyfnod o bum mlynedd. Gan mai dim ond rhai o'n hadrannau sy'n cynnal ymgynghoriadau clinigol, mae'r cynllun wedi'i ddrafftio gan staff o'n hadrannau Sgrinio a Helpa Fi i Stopio, gyda chefnogaeth Tîm y Gymraeg. O ganlyniad, mae gan dimau clinigol berchnogaeth dros y cynllun, gyda'r targedau a osodwyd dros y 5 mlynedd yn realistig ac yn uchelgeisiol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Tîm y Gymraeg wedi mynychu digwyddiadau a gynhaliwyd gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar Safon 110 ac maent wedi cyfarfod yn rheolaidd ag arweinwyr ein Cynllun Ymgynghoriadau Clinigol o'r ddwy adran. Mae tudalen wedi'i sefydlu ar restrau SharePoint i fonitro cynnydd gyda'r cynllun ac mae tystiolaeth o dargedau Blwyddyn 1 wedi'i chofnodi gan bob adran. Rydym nawr yn gweithio ar y targedau ar gyfer blynyddoedd 2 a 3.

## Nifer y cwynion a dderbyniwyd (Safon 115)

Rydym yn croesawu adborth a chwynion am ein gwasanaethau Cymraeg gan eu bod yn ein galluogi i wella a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer cwsmeriaid a staff. Isod mae manylion y cwynion sy'n ymwneud â'n gwasanaeth Cymraeg a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod hwn:

### Porth profi gartref Profi a Phostio – Derbyniwyd Awst 2024

Ym mis Awst cawsom gŵyn gan aelod o'r cyhoedd drwy swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ynghylch porth ar-lein Profi a Phostio ac ansawdd a chysondeb y cynnwys Cymraeg ar y porth. Gan mai'r gŵyn hon oedd y diweddaraf mewn cyfres o gwynion am y porth Profi a Phostio, cwblhaodd Tîm y Gymraeg wiriadau ansawdd trylwyr ar y porth ac maent wedi gweithio'n agos gyda'r darparwr trydydd parti i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud.

O ganlyniad, ers i ni dderbyn y gŵyn am y porth ym mis Awst 2023, rydym wedi:

- Sicrhau bod y datblygwyr yn ymwybodol o'r problemau parhaus gyda'r cynnwys Cymraeg ar y porth a difrifoldeb derbyn cwynion lluosog.
- Cysylltu â chydweithwyr caffael i sicrhau bod y datblygwr yn gweithio o fewn y telerau y cytunwyd arnynt yn eu contract ac i wneud gwelliannau lle bo angen.

- Cynghori'r datblygwyr ar y ffordd orau o sicrhau bod cyfieithu, prawf-ddarllen ac archwilio'r porth yn cael ei wneud i gynnal cynnwys cywir bob amser.

- Rhannu canllawiau a grëwyd gan Dîm y Gymraeg a chydweithio ar fap proses ar gyfer cynnwys yn y dyfodol gyda'r darparwr trydydd parti.

Bydd Tîm y Gymraeg a Thîm Iechyd Rhywiol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i weithio'n agos a chyfarfod yn rheolaidd â'r datblygwyr i sicrhau bod prosesau arferion gorau ar gyfer cyhoeddi cynnwys Cymraeg yn cael eu cynnal.

**Bron Brawf Cymru – Derbyniwyd Ebrill 2024**

Ym mis Ebrill, derbyniodd tîm Bron Brawf Cymru gŵyn gan gyfranogwr a ffoniodd y ganolfan sgrinio'r fron ac aros ar y llinell ffôn Gymraeg i siarad â rhywun yn Gymraeg, ond ni chafodd ateb. Yna, galwodd y llinell Saesneg a siarad â rhywun yn gyflym.

Aethpwyd i'r afael â'r gŵyn trwy Ddatrysiad Cynnar (anffurfiol) o fewn pedwar diwrnod gwaith i'w derbyn, gyda Rheolwr y Ganolfan Sgrinio yn anfon e-bost at y cyfranogwr gydag ymddiheuriad ac esboniad.

Fel arfer, byddai opsiwn y llinell ffôn Gymraeg yn cael ei hateb gan staff Bron Brawf Cymru sy'n siarad Cymraeg ac sy'n ateb galwadau o fewn y cyfnod gofynnol. Yn anffodus, ar yr achlysur hwn, dim ond un siaradwr Cymraeg oedd ar gael i ateb galwadau ac nid oedd ar gael ar yr adeg y cysylltodd yr achwynydd â'r gwasanaeth.

Rhoddodd Bron Brawf Cymru wybod i'r achwynydd ar y pryd eu bod wrthi'n diweddaru eu system ffôn fel y gellid trosglwyddo galwyr sy'n siarad Cymraeg i linell iaith Gymraeg arall, i osgoi'r broblem hon.

**Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru – Derbyniwyd Ionawr 2025**

Ym mis Ionawr, derbyniodd y tîm Sgrinio Llygaid Diabetig gŵyn gan fab cyfranogwr a oedd wedi ffonio i drefnu apwyntiad i'w fam. Nid oedd yn gallu gwneud hynny gan nad oedd ei fam wedi rhoi caniatâd o'r blaen ac nid oedd hi gydag ef ar y pryd. Mynegodd yr achwynydd ei fod o'r farn bod polisi caniatâd y Gwasanaeth Sgrinio Llygaid Diabetig yn "ormodol" ac yn "fiwrocrataidd". Fe wnaethant hefyd gwyno bod y llinell ffôn a llythyrau'r gwasanaeth yn cynnwys y Gymraeg yn gyntaf, sy'n drysu pobl oedrannus.

Cafodd y gŵyn ei thrin fel cwyn ffurfiol ac ymatebwyd iddi o fewn y targed o 30 diwrnod gwaith a osodwyd gan Reoliadau Gweithio i Wella.

Rhoddodd Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru ymateb ysgrifenedig i'r achwynydd yn cadarnhau bod gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, fel corff iechyd cenedlaethol, ddyletswydd statudol i ddarparu ein gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg. Hefyd, darparodd y tîm Sgrinio Llygaid Diabetig y ddeddfwriaeth benodol y mae'n rhaid i Iechyd Cyhoeddus Cymru gydymffurfio â hi a'r rhesymeg dros roi'r Gymraeg yn gyntaf ar ein llythyrau a'n llinellau ffôn.

## Cofnod o'n Safonau (Safon 118)

Mae copi o hysbysiad cydymffurfio terfynol Iechyd Cyhoeddus Cymru, ynghyd â gwybodaeth gyffredinol am y Gymraeg, ar gael ar ein gwefan: Y Gymraeg - Iechyd Cyhoeddus Cymru

## Ymdrin â Phryderon a Chwynion (Safon 119)

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn croesawu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau, y cyhoedd a gweithwyr ar weithredu Safonau'r Gymraeg. Rydym am ddysgu o'u profiadau, boed yn dda neu'n ddrwg, a gwneud gwelliannau lle mae diffygion. Mae'r poster isod wedi'i ddatblygu dros y flwyddyn ddiwethaf i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth Gweithio i Wella mewn clinigau a lleoliadau meddygol.





Rydym yn delio â phryderon gan ddefnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd ynghylch gweithredu Safonau'r Gymraeg yn unol â'n gweithdrefnau 'Gweithio i Wella' corfforaethol, wrth iddynt gael eu trin yn ffurfiol a bod angen llofnod y Prif Weithredwr arnynt.


Mae'r dudalen Cwynion ar ein gwefan yn cynnwys adran ar Safonau'r Gymraeg a sut i gysylltu â ni i roi gwybod am achosion o beidio â chydymffurfio. Cwynion - Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae dolen i'r dudalen gwynion hefyd ar gael ar dudalen y Gymraeg ar ein gwefan: Y Gymraeg - Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n rhoi manylion am sut y gellir codi pryderon drwy Gweithio i Wella, Tîm y Gymraeg yn Iechyd Cyhoeddus Cymru neu drwy swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Diweddarwyd ein polisi cwynion dros y flwyddyn ddiwethaf i gynnwys gwybodaeth a chanllawiau manwl ynghylch y Gymraeg: Gweithio i Wella – Gweithdrefn Adrodd a Rheoli Cwynion.

Mae pob cwyn a dderbynnir yn cael ei chofnodi ar Datix, system rheoli pryderon GIG Cymru. Pan fydd cwynion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yn cael eu cofnodi ar y system, mae Tîm y Gymraeg yn derbyn hysbysiad awtomatig drwy e-bost. Adroddir ar y cwynion hyn hefyd yng nghyfarfodydd chwarterol Grŵp y Gymraeg ac i Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd.




Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Tîm y Gymraeg wedi gweithio gyda'r Tîm Ymgysylltu i greu arolwg ar y gwasanaeth Cymraeg y mae ein defnyddwyr gwasanaethau a'n cwsmeriaid wedi'i dderbyn. Mae'r arolwg ar gael ar ein gwefan: Adborth a Chwynion - Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nid bwriad yr arolwg yw disodli ein gweithdrefnau cwyno ond rhoi cyfle i ddefnyddwyr gwasanaethau roi adborth i ni ar y gwasanaethau Cymraeg a gawsant gennym ni, boed yn brofiadau cadarnhaol neu negyddol. Bydd gwaith pellach i ddiweddaru a gwella'r arolwg yn cael ei gwblhau dros y flwyddyn nesaf.


## Sgiliau Cymraeg gweithwyr (Safon 116))

Mae 2634 o weithwyr (97% o'r gweithlu) wedi cofnodi eu gallu Cymraeg ar system y Cofnod Staff Electronig (ESR). Mae Tabl 2 yn dangos nifer a chanran y gweithwyr hyn sy'n hyfedr ar bob lefel.

### Cyfraddau datgan sgiliau Cymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cyfrif pennau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 31/03/2025 | 2634 | 100% |
| Gweithwyr sydd wedi cofnodi eu sgiliau siarad Cymraeg ar 31/03/2025 | 2558 | 97% |
| Gweithwyr nad ydynt wedi cofnodi eu sgiliau siarad Cymraeg ar 31/03/2025 | 76 | 3% |
| Lefel 0 | 1525 | 57.9% |
| Lefel 1 | 547 | 20.7% |
| Lefel 2 | 137 | 5.2% |
| Lefel 3 | 84 | 3.2% |
| Lefel 4 | 98 | 3.7% |
| Lefel 5 | 167 | 6.3% |
| CYFANSWM | 2634 | 100.0 |

### Lefelau sgiliau Cymraeg y staff




## Gofynion sgiliau Cymraeg ar gyfer swyddi newydd a swyddi gwag (Safon 117)

Mae Safon 106 yn ei gwneud yn ofynnol i Iechyd Cyhoeddus Cymru gategoreiddio pob swydd newydd a swydd wag yn ôl ei gofynion sgiliau Cymraeg. Darperir y data yn y tabl isod i ni gan gydweithwyr ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Yn ystod 2024-2025, hysbysebodd Iechyd Cyhoeddus Cymru 516 o swyddi. Mae Tabl 3 yn dangos nifer a chanran y swyddi a hysbysebwyd yn ôl pob categori iaith.

### Sgiliau Cymraeg wrth recriwtio i Iechyd Cyhoeddus Cymru

| Categori swyddi | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol | 21 | 4% |
| Bydd angen dysgu sgiliau Cymraeg pan benodir rhywun i'r swydd | 0 | 0% |
| Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol | 478 | 92.7% |
| Nid yw sgiliau iaith Gymraeg yn angenrheidiol | 17 | 3.3% |

Dros y flwyddyn nesaf rydym yn gobeithio gwneud gwelliannau i'r broses asesu Sgiliau Cymraeg wrth recriwtio gyda'r nod o recriwtio mwy o aelodau staff sydd â Sgiliau Cymraeg a staff sy'n awyddus i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg gydag amser.

## Ein blaenoriaethau ar gyfer 2025–2026

Dros y cyfnod 12 mis nesaf, bydd ein ffocws o ran y Gymraeg ar y canlynol:

| Targed | Erbyn Pryd? |
|---|---|
| Dysgu a datblygu Sgiliau Cymraeg:<br><br>Byddwn yn sicrhau bod staff ar draws y sefydliad yn cael cyfle i gymryd rhan yng nghynnig Croeso a Chodi Hyder y Ganolfan Dysgu Cymraeg. | Bydd tair o garfanau'r cynllun Codi Hyder wedi cael eu cyflawni erbyn mis Mawrth 2026<br><br>Cynhelir sesiynau Croeso yn rheolaidd |
| Ymgysylltu:<br><br>Byddwn yn gwella ein hymgysylltu â staff drwy ddarparu posteri pwrpasol sy'n cynnwys codau QR a rhifau ffôn i'n cydweithwyr mewn labordai a chanolfannau sgrinio, nad oes ganddynt fynediad rheolaidd at liniaduron, gyda gwybodaeth am sut i gael at gyfleoedd dysgu Cymraeg drwy Iechyd Cyhoeddus Cymru. | Bydd posteri yn cael eu dosbarthu i bob labordy a chanolfan erbyn mis Medi 2025. |
| Byddwn yn gwneud gwelliannau i'n harolwg adborth iaith Gymraeg er mwyn casglu data gwell a phrofiadau defnyddwyr. | Diwedd mis Mawrth 2026 |
| Cyfieithu:<br><br>Byddwn yn sicrhau bod y porth newydd ar gyfer ceisiadau cyfieithu Cymraeg yn cael ei ddefnyddio i weinyddu pob cais cyfieithu, gan sicrhau bod gan staff yr holl wybodaeth a chanllawiau y mae eu hangen arnynt drwy gydol y flwyddyn.<br><br>Bydd elfennau cyfieithu ar y pryd ac elfennau amlgyfrwng yn cael eu hychwanegu at y porth a bydd y porth yn cael ei ddatblygu a'i wella yn ôl yr angen. | Diwedd mis Mawrth 2026 |
| Gwefannau:<br><br>Byddwn yn lansio gwefan gorfforaethol newydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn llawn erbyn mis Ionawr 2026 ac yn gweithio gyda gwefannau unigol i symud eu cynnwys i'r brif wefan yn ystod y flwyddyn, gan sicrhau bod pob tudalen yn cydymffurfio â Safon 39 Safonau'r Gymraeg. | Ionawr 2026 |
| Cynllunio'r Gweithlu: | |

| | |
|---|---|
| Bydd holl Gyfarwyddiaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn datblygu Cynlluniau'r Gweithlu, a fydd yn cynnwys targedau sy'n ymwneud yn benodol â'r Gymraeg. | Diwedd mis Mawrth 2026 |
| Recriwtio:<br><br>Byddwn yn adolygu ein prosesau presennol ar gyfer asesu Sgiliau Cymraeg yn ystod recriwtio ac yn cyflwyno proses symlach a mwy effeithlon a fydd yn galluogi Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyflogi mwy o siaradwyr Cymraeg gydag amser. | Dechrau 2026 |
| Caffael:<br><br>Byddwn yn adolygu, yn diweddaru ac yn cyhoeddi ein canllawiau ar yr Iaith Gymraeg mewn prosesau tendro mewn partneriaeth â chydweithwyr yn Nhîm Caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. | Diwedd mis Mawrth 2026 |
| Hyfforddiant:<br><br>Byddwn yn gweithio gyda'n darparwr hyfforddiant allanol i gynnig hyfforddiant i reolwyr a staff yn unol â Safonau canlynol y Gymraeg.<br><br>97: Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i gael hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg (Recriwtio a Chyfweld)<br><br>98: Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i gael hyfforddiant yn Gymraeg ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn – (a) cyfarfodydd; (b) cyfweliadau; ac (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu.<br><br>99 (b): Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr. | Diwedd mis Mawrth 2026 |
| Hyrwyddo'r Gymraeg:<br><br>Byddwn yn parhau i ddatblygu Iechyd Cyhoeddus Cymru fel sefydliad dwyieithog lle mae'r Gymraeg a'i diwylliant yn cael eu dathlu. Byddwn yn gwneud hyn drwy wneud y canlynol:<br><br>• Parhau i rannu cylchlythyr misol y Gymraeg gyda staff.<br>• Trefnu o leiaf ddau ddigwyddiad dathlu dros y flwyddyn gyda'n rhwydwaith staff Ymlaen neu mewn partneriaeth â sefydliadau eraill GIG Cymru.<br>• Cynnal Wythnos y Gymraeg fis Chwefror / Mawrth 2026 | Diwedd mis Mawrth 2026 |

## Atodiad 1: Gweithrediaeth y GIG

Daeth Gweithrediaeth GIG Cymru i rym ar 1 Ebrill 2023 a'i bwriad yw ysgogi gwelliannau yn ansawdd a diogelwch gofal, er deilliannau, mynediad a phrofiad gwell a thecach i'r claf, llai o amrywiadau, a gwelliannau yn iechyd y boblogaeth. Bydd y Weithrediaeth yn darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol cryf – gan alluogi, cynorthwyo a chyfarwyddo GIG Cymru i drawsnewid gwasanaethau clinigol yn unol â blaenoriaethau a safonau cenedlaethol.

Mae'r Weithrediaeth yn gweithredu drwy fodel hybrid ac mae ganddi gartref gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru. Felly, mae'n dilyn Safonau'r Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'n adrodd yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

Mae gwybodaeth am Weithrediaeth y GIG ar gael ar y wefan:

Yn Gymraeg [Gweithrediaeth GIG Cymru - GIG Cymru]

Yn Saesneg: [Gweithrediaeth GIG Cymru - GIG Cymru]

Drwy'r trefniadau lletya, mae Hwb y Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gael i holl staff Gweithrediaeth GIG Cymru gael arweiniad a chymorth, yn ogystal â bod yn aelodau o rwydwaith Ymlaen a chael mynediad at gyflenwyr cyfieithu.

Mae aelod(au) o'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol yn mynd i gyfarfodydd Swyddogion Iaith Gymraeg GIG Cymru gyfan a gynhelir drwy Teams ac wyneb yn wyneb, ac maent yn cyfarfod â Rheolwr y Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru bob mis i drafod unrhyw broblemau neu ymholiadau a godir neu y mae angen ymchwilio iddynt.

Yn dilyn lansio'r ap Cyfieithu, mae gan Weithrediaeth GIG Cymru 23 o Weinyddwyr Cyfieithu cofrestredig ac fe'u gwahoddir i fynychu cyfarfod Gweinyddwyr Cyfieithu Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cynhelir y sesiynau hyn i sicrhau y gall Gweinyddwyr Cyfieithu gyfathrebu â Thîm y Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru os oes ganddynt unrhyw broblemau ynghylch prosesau cyfieithu. Cyfrifoldeb y Gweinyddwyr Cyfieithu yw sicrhau bod cyfieithiadau o fewn Gweithrediaeth GIG Cymru yn cael eu hanfon a'u dychwelyd at y sawl sy'n gofyn am gyfieithiad.

I gynorthwyo staff â'r Gymraeg, mae gan Weithrediaeth GIG Cymru amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael trwy dudalennau'r fewnrwyd i gefnogi dwyieithrwydd a chodi ymwybyddiaeth o gyfleoedd pellach i hyrwyddo'r Gymraeg. Yn ogystal, gall staff fynd at dudalen y Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru ar Hwb y Gymraeg ar y fewnrwyd, sy'n darparu gwybodaeth i staff am gyfleoedd i ddysgu Cymraeg. Hefyd, mae opsiwn gan staff Gweithrediaeth GIG Cymru i ymuno â sianeli Teams Dysgu Cymraeg a derbyn Cylchlythyr misol y Gymraeg.

## Data cydymffurfedd Gweithrediaeth y GIG

## Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (Safon 102)


Ar 31 Mawrth 2025, roedd 97.02% o staff Gweithrediaeth y GIG wedi cwblhau'r modiwl hyfforddi Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar ESR.

## Sgiliau Iaith Gymraeg gweithwyr (Safon 116)

### Cyfraddau datganiad sgiliau Cymraeg Gweithrediaeth y GIG

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cyfrif pennau Gweithrediaeth y GIG ar 31/03/2025 | 471 | 100% |
| Gweithwyr sydd wedi cofnodi eu sgiliau siarad Cymraeg ar 31/03/2025 | 461 | 98% |
| Gweithwyr nad ydynt wedi cofnodi eu sgiliau siarad Cymraeg ar 31/03/2025 | 10 | 2% |
| Heb ymateb | 10 | 2.1% |
| Lefel 0 | 271 | 57.5% |
| Lefel 1 | 106 | 22.5% |
| Lefel 2 | 31 | 6.6% |
| Lefel 3 | 13 | 2.7% |
| Lefel 4 | 15 | 3.3% |
| Lefel 5 | 25 | 5.3% |
| CYFANSWM | 471 | 100% |

## Lefelau sgiliau Cymraeg y staff




## Gofynion sgiliau Cymraeg ar gyfer swyddi newydd a swyddi gwag (Safon 117)

Darperir y data yn y tabl isod gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Yn ystod 2024-2025, hysbysebodd Gweithrediaeth y GIG 163 o swyddi. Mae'r tabl isod yn dangos nifer a chanran y swyddi a hysbysebwyd yn ôl categori iaith.

### Tabl 3: Sgiliau Cymraeg mewn recriwtio gan Weithrediaeth y GIG

| Categori swyddi | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol | 1 | 0.6% |
| Bydd angen dysgu sgiliau Cymraeg pan benodir rhywun i'r swydd | 0 | 0% |
| Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol | 148 | 90.8% |
| Nid yw sgiliau iaith Gymraeg yn angenrheidiol | 14 | 8.6% |